wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

(www.wrecsam.gov.uk)

CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

2018/19 - 2020/21

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ganllaw strategol i gynlluniau gwariant y Cyngor dros y dair blynedd nesaf er mwyn cefnogi blaenoriaethau'r Cyngor o fewn cyd-destun cyllideb flynyddol gytbwys; mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig presennol ar gyfer blynyddoedd 2018/19 i 2020/21.

1.2 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhagdybio sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol yn seiliedig ar nifer o dybiaethau, gan nodi cyllidebau refeniw a chyfalaf dangosol ac yn rhagamcanu lefel debygol treth y cyngor a balansau'r Cyngor.

1.3 Mae'r Cyngor yn gweithredu o fewn cyd-destun pwysau digynsail ar gyllidebau awdurdodau lleol. Mae cynllunio ariannol tymor canolig yn digwydd yn erbyn cefndir o doriadau ariannol sylweddol ar gyfer Llywodraeth Leol. Yn ogystal, mae'r Cyngor, yn gyffredin â'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol, yn dal mewn perygl o bwysau ariannol heb ei ariannu, gan gynnwys rheoli'r gweithlu, rheoli gwastraff, a'r galw am ddiwygio gofal cymdeithasol a lles yn ogystal â gweithredu'r cyflog byw cenedlaethol.

1.4 Mae adolygu'r MTFP yn parhau i fod yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig y Cyngor. Bydd yn rhaid i'r Cyngor wneud dewisiadau anodd iawn yn y blynyddoedd i ddod ynghylch pa wasanaethau i'w blaenoriaethu. Er mwyn osgoi toriadau i wasanaethau, mae'r Cyngor yn parhau i archwilio opsiynau amgen o ddarparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau'n parhau i fod yn addas at y diben yng nghyd-destun cyllidebau llai. Gallai hyn olygu ailymweld â disgwyliadau trigolion er mwyn blaenoriaethu gwasanaethau i'r rhai mwyaf diamddiffyn. Mae hefyd yn gyfle i weithio gyda phartneriaid ac awdurdodau cyfagos i gynnal a gwella canlyniadau yn erbyn cefnlen o ostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus.

2. Egwyddorion sy'n arwain ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig

2.1. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cydnabod y bydd y lefel gyffredinol o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau i ostwng hyd y gellir ei ragweld. Mae'n nodi materion cyffredinol a fydd yn effeithio ar sefyllfa ariannol y Cyngor yn 2018/19 a thros y tymor canolig. Mae'n amlygu'r paramedrau ariannol ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf ac yn ystyried y canlynol:

- Cynllun y Cyngor
- Y Cyd-destun Ariannol Mewnol
- Ffactorau Economaidd Allanol
- Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf

2.2 Os yw'r Cyngor yn mynd i gadw at ei flaenoriaethau a chynnal sadrwydd ariannol yn ystod y tymor canolig, bydd yn rhaid iddo barhau i wneud arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchu incwm ychwanegol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cysylltu'r uchod â Rhaglen Ail-lunio'r Cyngor i ddarparu sefyllfa ariannol gynaliadwy.

3. Cynllun y Cyngor

3.1 Cynllun y Cyngor yw'r cynllun uchaf sy'n helpu'r Cyngor i ganolbwyntio ei adnoddau a gyrru gwelliant. Mae'n nodi sut y byddwn yn canolbwyntio ein hegni

a'n hadnoddau sy'n prinhau a sut y byddwn yn mesur ein perfformiad. Bydd Cynllun y Cyngor ar gyfer 2017- 22 yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfod mis Chwefror 2017 y Cynfor. Mae fframwaith Cynllun y Cyngor wedi'i adolygu i adlewyrchu'r cyd-destun strategol sy'n newid.

3.2 Y **weledigaeth** yw 'Cyngor sy'n arweinydd cymunedol cryf a chynhwysol'.

3.3 Y **pwrpas** yw 'sicrhau bod Wrecsam a'i phobl yn cael eu cefnogi a'u galluogi i gyrraedd eu potensial, llwyddo a chyflawni lefel uchel o les'.

3.4 Yr **egwyddorion** a fydd yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu'r holl wasanaethau yw:

- Edrych ar **atal** problemau yn gyntaf – atal problemau rhag codi; peidio â chreu problemau newydd
- Blaenoriaethu'r bobl fwyaf **diamddiffyn** - lleihau amrywiadau amhriodol mewn canlyniadau drwy ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Cynllunio ar gyfer y **tymor hir** – diogelu ein hadnoddau naturiol
- Ymgynghori a **chynnwys** pobl leol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau
- **Integreiddio a chydweithio** – gyda chydweithwyr; gyda phartneriaid
- **Y Gymraeg** – gwasanaethau a gwybodaeth ar gael yr un mor hawdd yn Gymraeg a Saesneg

3.5 Mae'r weledigaeth, y pwrpas a'r egwyddorion yn nodi sut y byddwn yn ceisio cynllunio a darparu gwasanaethau a bydd arnom ni angen ystyried sut y byddan nhw'n cydbwyso yn erbyn ei gilydd mewn gwahanol feysydd gwasanaeth.

3.6 Mae Cynllun y Cyngor hefyd yn fodd i'r Cyngor gytuno ar ei amcanion lles, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.7 Ers 2012 mae Cynllun y Cyngor wedi canolbwyntio ar bedwar thema sy'n gorgyffwrdd ac yn gysylltiedig â'i gilydd. Economi, Pobl, Lle a Threfn. Mae'r themâu hyn wedi'u hymgorffori ar draws strwythur y sefydliad ac o fewn arferion gweithio. Mae'r themâu hefyd yn adlewyrchu pedwar agwedd datblygu cynaliadwy fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): lleol economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

4. <u>Y Cyd-destun Ariannol Mewnol</u>

4.1 Yn 2017/18 roedd gofyniad cyllideb refeniw net y Cyngor, i'w dalu gan dalwyr y dreth gyngor yn £55.9 miliwn (net o grantiau'r llywodraeth, rhenti, llog a ffioedd a thaliadau).

4.2 Roedd cyfrifiad sylfaen treth y Cyngor ar gyfer 2017/18 yn 53,116 o eiddo cyfatebol i fand D. Mae'r sylfaen dreth gyffredinol wedi'i chreu o'r un cyfrifiadau ar gyfer pob un o'r 34 ardal gymunedol. I gyfrifo'r sylfaen dreth ar gyfer ardal, addasir nifer yr anheddau ym mhob band treth cyngor i ystyried unrhyw ostyngiadau, premiymau neu eithriadau.

4.3 Gwariant gros cyllidebedig y Cyngor ar gyfer 2017/18 yw £375.8 miliwn. Cefnogir y gwariant hwn gan rent, ffioedd a thaliadau yn ogystal â chan grant fformiwla'r llywodraeth a threthdalwyr y cyngor fel y dangosir isod yn y siart:



5. Ffactorau Allanol

5.1 Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor wedi'i osod yng nghyd-destun effaith yr economi cenedlaethol, twf poblogaeth a thueddiadau demograffig a all achosi cynnydd mewn galw neu wariant mewn maes penodol fel addysg, tai, gofal cymdeithasol a gwaredu gwastraff.

5.2 Chwyddiant

5.2.1 Mae chwyddiant yn elfen bwysig wrth lunio Cynllun Ariannol Tymor Canolig; mae prisiau nwyddau a gwasanaethau yn dueddol o gynyddu yn unol â chyfradd chwyddiant fel y mesurir gan naill ai'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) neu'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Er bod y ddau fynegai yn mesur chwyddiant, mae elfennau'r fasged ddynodedig ar gyfer pob un fel arfer yn golygu bod CPI â chyfradd is na'r RPI.

5.2.2 Cododd chwyddiant CPI 3.1% yn y flwyddyn hyd at Tachwedd 2017. Mae chwyddiant wedi gwthio uwchlaw'r targed gan yr hwb i brisiau mewnforio sydd wedi arwain at ddibrisiad o'r bunt sterling yn y gorffennol. Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) yn barnu bod chwyddiant yn debygol o agosáu at ei uchafbwynt, a bydd yn dirywio tuag at y targed o 2% yn y tymor canolig.

5.2.3 Polisi presennol y Cyngor yw cynyddu ffioedd fel eu bod o leiaf yn unol â chwyddiant, os nad uwch, er mwyn i ni allu cynyddu cyfran gwasanaeth sy'n cael ei ariannu gan y defnyddwyr yn hytrach na thrwy dreth y cyngor neu renti. Anogir swyddogion hefyd, os oes modd, i godi tâl sy'n cwrdd â chost economaidd darparu'r gwasanaeth. Wrth bennu cyllidebau, disgwylir i swyddogion gynhyrchu cymaint o

incwm â phosibl os oes gallu yn y farchnad ac, ar yr un pryd, mae'n rhaid iddynt ystyried y ffioedd a godir gan ein cystadleuwyr.

5.3 Cyfraddau Llog

5.3.1 Mae rhagolwg tymor canolig economi'r Deyrnas Unedig wedi'i ddominyddu gan y trafodaethau i adael yr Undeb Ewropeaidd ac felly mae sefyllfa dymor hir economi'r Deyrnas Unedig yn ddibynnol iawn ar y cytundebau y mae'r llywodraeth yn gallu eu sicrhau gyda'r Undeb Ewropeaidd a gwledydd eraill.

5.4 Poblogaeth

5. 4.1 Mae amcanestyniadau poblogaeth yn rhoi syniad i ni o'r hyn a all ddigwydd mewn blynyddoedd i ddod, o ran anghenion tai a newidiadau yn y farchnad lafur yn ogystal â sut y bydd yn effeithio ar agweddau eraill ar ddarparu gwasanaethau. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn amcangyfrif maint y boblogaeth yn y dyfodol ac yn seiliedig ar dybiaethau am enedigaethau, marwolaethau a mudo. Mae'r tybiaethau fel rheol yn seiliedig ar dueddiadau blynyddoedd diweddar ac o ganlyniad mae'r amcanestyniadau yn fwy ansicr wrth iddynt gael eu cario ymlaen.

5.4.2 Mae demograffeg y fwrdeistref sirol yn cael effaith uniongyrchol ar nifer o wasanaethau'r Cyngor, gan gynnwys nifer y disgyblion, proffil oed y boblogaeth a nifer yr eiddo; mae hyn hefyd yn effeithio ar y cyllid y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

5.4.3 Cyhoeddwyd amcangyfrifon canol blwyddyn (MYE) o'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar 22 Mehefin 2017 ac mae'n ystyried y newid yn y boblogaeth rhwng 2015 a 2016. Mae poblogaeth gyffredinol Cymru bellach yn 3,113,150, sef cynnydd o 14,064 pobl (0.5%) ers 2015. Mae'r cynnydd mwyaf yn nhri awdurdod lleol y dinasoedd (Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd). Gwelwyd ychydig iawn o newid ym mhoblogaeth Wrecsam ers 2015.

	2015	**2016**	**Newid**	**%Newid**
Wrecsam	136,647	136,710	63	0
Pob Cymru	3,099,086	3,113,150	14,064	0.5

5.4.4 O gymharu amcangyfrifon canol blwyddyn 2016 i ragamcan poblogaeth 2016 (yn seiliedig ar 2014) bu cynnydd cyffredinol ar yr amcangyfrifon rhagamcanol ar gyfer Cymru o 5,096 o bobl (0.2%). Fodd bynnag, bu gostyngiad ar yr amcangyfrifon rhagamcanol ar gyfer Wrecsam o 1,217 o bobl (-0.9%).

	Amcanestyniadau (seiliedig ar 2014)			**ACB**	**Gwahaniaeth (Amcanestyn 2016 I ACB)**	
	2014	**2015**	**2016**	**2016**	**Rhif**	**%**
Wrecsam	136,714	137,318	137,927	136,710	-1,217	-0.9
Pop Cymru	3,092,036	3,099,890	3,108,054	3,113,150	5,096	0.2

5.5 Nifer y Disgyblion

5. 5.1 Ym mis Ionawr 2017, roedd cyfanswm poblogaeth ysgolion Wrecsam (heb gynnwys disgyblion meithrin) yn 17,236 o ddisgyblion. Mae'r rhagamcanion disgyblion diweddaraf a baratowyd gan yr Adran Addysg yn nodi bod y niferoedd yn debygol o gynyddu. Ar gyfer y cyfnod 2018 i 2022 mae'n debygol y bydd nifer y disgyblion ysgol yn cynyddu 4.19% (728), gweler Tabl 1 Rhagolygon Disgyblion 2018 - 2022.

Amcanestyniadau Disgyblion, 2018-2022

Ysgol	Nifer y Disgyblion					
	Gwir	Amcanestyniadau *				
	Ionawr 2017	Ionawr 2018	Ionawr 2019	Ionawr 2020	Ionawr 2021	Ionawr 2022
Cynradd	11,304	11,307	11,375	11,310	11,262	11,189
Uwchradd	5,932	6,071	6,275	6,558	6,743	6,917
Pob Un	17,236	17,378	17,650	17,868	18,005	18,106

**Nid yw'r amcanestyniadau yn cynnwys disgyblion meithrin, Twf Cynllun Datblygu Lleol (a ragwelir yn 7.7%) na lwfansau mewnfudo.*

6. Datganiad Hydref 2017

6.1 Ar 22 Tachwedd 2017 cyhoeddodd y Canghellor, Phillip Hammond, ei ddatganiad hydref cyntaf. Prif bwyntiau datganiad y Canghellor oedd:

Rhagolygon Economaidd

- 660k arall mewn gwaith erbyn 2022, 3m o swyddi newydd ers 2010.
- Lleihaodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) ei ragolygon ar gyfer twf economaidd y DU, a disgwylir i hyn dyfu gan 1.5% yn 2017, wedi'i israddio o'r 2% a ragwelwyd ym mis Mawrth. Lleihawyd twf hefyd i 1.4% yn 2018, 1.3% yn 2019 a 2020, cyn codi yn ôl i 1.5%, ac yn olaf 1.6% yn 2022.
- Rhagwelir chwyddiant i daro 2.4% eleni; yna bydd yn gostwng i 2.3% yn 2018 a'r targed o 2% yn 2019.
- Disgwylir i ddyled y DU, fel canran o allbwn economaidd, neu GDP, ostwng o 2.4% eleni i 1.9% y flwyddyn nesaf.
- Mae'r OBR yn rhagweld y bydd y diffyg yn 1.3% o GDP yn 2020-21, gan roi £14.8 biliwn ychwanegol wrth gefn yn erbyn y targed o 2%.

Lles

- Amddiffynnodd y Canghellor y system fudd-daliadau Credyd Cyffredinol dadleuol fel bod yn "ddiwygiad gorddyledus";
- Addawyd dileu'r cyfnod aros o 7 diwrnod ar ddechrau'r hawliad a gwneud mynediad at fudd-daliadau ymlaen llaw yn haws ac ar gael yn gyflym.

"Mae hwn yn becyn £1.5 biliwn i fynd i'r afael â phryderon ynghylch cyflwyno'r budd"

- Cyflwyno taliad 2 wythnos ar gyfer budd-daliadau tai presennol.

Cyflog Byw Cenedlaethol

- Mae'r Cyflog Byw Cenedlaethol i gynyddu o £7.50 i £7.83 ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf, sef cynnydd o 4.4%.

Goblygiadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru

Dywedodd y Canghellor yn ei araith y byddai Cymru yn elwa o £1.2 biliwn erbyn diwedd y Senedd hon o ganlyniad i'r mesurau a gyhoeddwyd.

Eglurodd yr Ysgrifennydd Cyllid, Mark Drakeford, yn ei ymateb i Gyllideb yr Hydref Llywodraeth y DU, "o'r £1.2 biliwn, mae £1 biliwn yn ymwneud ag arian cyfalaf a bod yn rhaid ad-dalu mwy na hanner i Drysorlys y DU ac mae'r £215m sy'n weddill yn berthnasol i gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer y cyfnod 2017-18 i 2019-20". Dywedodd "Er bod y cynnydd bach hwn yn yr adnoddau sydd ar gael i Gymru i'w groesawu gan y byddant yn helpu i gefnogi ein blaenoriaethau, ychydig fydd y cyllid ychwanegol hwn yn ei wneud i leddfu'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus rheng flaen, sydd wedi bod yn cael trafferth ymdopi o ganlyniad i'r toriadau parhaus i'n cyllideb yr ydym wedi'i ddioddef ers 2010-11. Hyd yn oed gyda'r arian ychwanegol hwn, bydd cyllideb Llywodraeth Cymru 5% yn is mewn termau real yn 2019-20 nag a oedd yn 2010-11".

Mae'r tablau isod, y cyntaf ar gyfer refeniw a'r ail ar gyfer cyfalaf, yn nodi sut mae bloc Cymru yn cymharu yng nghyllideb eleni i'r ddau gyhoeddiad blaenorol.

Adnoddau LIC DEL (ac eithrio dibrisiad), £bn

	15-16	16-17	17-18	18-19	19-20	20-21
Cyllideb y Gwanwyn 2016[1]	12.8	13.0	13.3	13.3	13.4	n/a
Cyllideb y Gwanwyn 2017[2]	n/a	13.1	13.4	13.4	13.5	n/a
Cyllideb yr Hydref 2017[3]	n/a	n/a	13.4	13.5	13.5	n/a

Cyfalaf LIC DEL, £bn

	15-16	16-17	17-18	18-19	19-20	20-21
Cyllideb y Gwanwyn 2016[1]	1.5	1.5	1.5	1.6	1.7	1.7
Cyllideb y Gwanwyn 2017[2]	n/a	1.5	1.6	1.7	1.8	1.9
Cyllideb yr Hydref 2017[3]	n/a	n/a	1.7	1.9	2.1	2.2

[1] 2016 Budget Book, pages 91 & 92
[2] 2017 Budget Book, pages 21 & 22
[3] 2018 Budget Book, pages 23 & 24

Fel erioed, ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru mae'r goblygiadau ariannol yn dibynnu ar benderfyniadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru wrth ddyrannu adnoddau.

7. Her Ariannol Hanesyddol

7.1 Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y cyllid y bydd yn ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru yn parhau i ostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond bydd ein costau'n parhau i gynyddu oherwydd dyfarniadau tâl, chwyddiant a phwysau eraill ac oherwydd y cynnydd mewn galw am wasanaethau, gan arwain at ein cymhelliant i wneud arbedion pellach.

7.2 Dros y saith blynedd ddiwethaf pontiwyd bwlch cyllid y Cyngor (y gwahaniaeth rhwng gwariant a chyllid net) trwy wneud yr arbedion canlynol:

Arbedion Blynyddol

	Arbedion Blynyddol 2011/12-2017/18						
	2011/12 £'000	2012/13 £'000	2013/14 £'000	2014/15 £'000	2015/16 £'000	2016/17 £'000	2017/18 £'000
Gwariant Net	216,068	215,434	233,334	238,111	234,729	229,073	229,461
Cyllid	208,608	211,890	230,048	227,333	223,120	224,069	225,324
Arbedion	-7,460	-3,544	-3,286	-10,778	-11,609	-5,004	-4,137

8. Maint yr Her Ariannol Bresennol

8.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i baratoi gan ddwyn ymlaen y Gyllideb Arian Gyfyngedig bresennol, gan ddefnyddio model ariannol manwl gydag addasiad ar gyfer chwyddiant, ac effaith lawn penderfyniadau a newidiadau gweithredol sy'n hysbys. Mae'r rhagolwg hwn yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf oedd ar gael adeg y drafftio, ond mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gymhleth a dynamig ac yn destun newid.

8.2 Amlygodd y MTFP a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 22 Chwefror 2017 yr angen i wneud arbedion o tua £13m ar gyfer y cyfnod 2018/20. Roedd hyn yn tybio gostyngiad o 1% mewn cyllid grant, cynnydd o 3% yn y dreth gyngor (ond dim cynnydd yn y sylfaen dreth), chwyddiant cyflog o 1%, chwyddiant cyffredinol o 2% ac ymrwymiadau anochel hysbys ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20.

8.3 Setliad Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol 2018/19

8.3.1 Cyhoeddwyd y setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol dros dro ar 10 Hydref 2017 a nododd ostyngiad mewn cymorth grant (ar ôl ystyried trosglwyddiadau grantiau i'r setliad) ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 o 0.3% i'r Cyngor o'i gymharu â gostyngiad cyfartalog o 0.5% ar sail Cymru gyfan. Mae'r setliad dangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 yn ostyngiad pellach o 1.5%.

8.3.2 Ar 20 Rhagfyr 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y setliad terfynol ar gyfer

Cymru. Cyfanswm gwerth y gefnogaeth i Gymru gyfan oedd £4,214 miliwn o'i gymharu â £4,205 miliwn yn 2017/18 (ar ôl addasu ar gyfer grantiau a drosglwyddwyd). Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 0.2% o'i gymharu â 2018/19. Fodd bynnag, roedd cyfran y Cyngor o'r setliad yn gynnydd o 0.36%.

8.3.3 Roedd addasu ar gyfer cynnydd i sylfaen dreth y Cyngor a diweddaru'r chwyddiant a'r ymrwymiadau anorfod yn diwygio'r diffyg ariannol ar gyfer 2018/19 i £4.787 miliwn a £8.322m ar gyfer 2019/20. Mae'r tabl isod yn dangos y cydrannau sy'n ffurfio diffyg y gyllideb a'r diffyg rhagamcanol dros y ddwy flynedd o 2019/20 sy'n gyfystyr ag ychydig dros £11 miliwn.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2017/18 - 2019/20

		2017/18 £'000	2018/19 £'000	2019/20 £'000	2020/21 £'000
	Incwm Treth y Cyngor	55,877	58,236	59,983	61,782
	Grant Cynnal Refeniw	174,047 #	174,636	172,890	171,161
	Cyfanswm y Cyllid	**229,924**	**232,872**	**232,873**	**232,943**
1	**Cynnydd) / Lleihad mewn Cyllid**		**-2,948**	**-1**	**-70**
2	**Ychwanegu: Chwyddiant**		**6,339**	**6,862**	**6,965**
	Ymrwymiadau Anochel:				
	Demograffeg		500	500	500
	Costau Cyllido Cyfalaf		167	184	259
	Costau Pensiwn		0	727	0
	Ardoll y Gwasanaeth Tân		80	50	50
	Rhyddhad Ardrethi Dewisol Ychwanegol		54	0	0
	Cyfyngiadau Cyfalaf Uwch ar gyfer Gofal Preswyl		288	0	0
	Atal Digartrefedd		237	0	0
	Iwfans Aelodau		10	0	0
	Cyfraniad I Cais Twf Gogledd Cymru		50	0	0
	Cost Dyletswydd ychwanegol sy'n ymwneud a swyddog diogelu data		10	0	0
3	**Cyfanswm yr Ymrwymiadau Anochel**		**1,396**	**1,461**	**809**
4	**Cyfanswn Pwysau Cyllideb (1+2+3)**		**4,787**	**8,322**	**7,704**
5	**Llai: Arbedion a Nodwyd**		**-4,787**	**-4,687**	**0**
6	**Diffyg y gullideb ar ol i arbeelion gael eu nodi(4+5)**		**0**	**3,644**	**7,704**
	# Wedi'i addasu ar gyfer grantiau a drosglwyddwyd i'r Grant Cynnal Refeniw yn 2018/19				

8.4 Fel yn y blynyddoedd blaenorol, dim ond rhan o'r pwysau ariannol sydd angen ei ymgorffori yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yw gostyngiad yng nghyllid y llywodraeth.

Tabl 4: Tybiaethau Ariannol

	2018/19	2019/20	2020/21
Grant	0.34%	-1%	-1%
Cynnydd yn Nhreth y Cyngor	3.9%	3%	3%
Chwyddiant Cyflog	2.53%	2.88%	2.5%
Cyffredinol	2%	2%	2%

8.5 Nid yw'r Cyngor wedi'i ddiogelu rhag effaith pwysau chwyddiant cyffredinol eraill yn y sector preifat, sy'n cael eu pasio ymlaen gan gontractwyr allanol. Felly mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn tybio cynnydd cyffredinol rhwng 2% yn ystod cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, mae hyn yn unol â thargedau'r Llywodraeth.

9. Cwrdd â'r Her Ariannol

9.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen iddo barhau i ail-lunio ei wasanaethau, nid yn unig i fodloni'r heriau ariannol y mae'n eu hwynebu ond hefyd i flaenoriaethu aelodau mwyaf diamddiffyn ein cymdeithas. Yn wyneb yr her hon, mae'n rhaid i'r Cyngor newid y modd y darperir gwasanaethau yn sylweddol, o ran pa rai sy'n parhau i gael eu darparu, a hefyd y ffordd y maent yn cael eu darparu. Rhwng Ebrill 2015 a Chwefror 2017 mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Phartner Ail-lunio i gyflawni deilliannau a gweithio mewn ffordd wahanol - ffordd sy'n canolbwyntio'n fwy ar y cwsmer, sy'n seiliedig ar fusnes a phwrpas. Dyma rai o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r ffordd y byddwn ni'n gweithio fel sefydliad yn y dyfodol:

- Lle bynnag y bo'n bosibl, ateb ymholiadau cwsmeriaid ar y pwynt cyswllt cyntaf. Nid yw hyn yn golygu bod ein holl wasanaethau yn Galw Wrecsam; mae'n ymwneud â sicrhau bod pobl sydd â'r sgiliau, yr wybodaeth neu'r ddealltwriaeth gywir ar gael i gwsmeriaid pan fyddant yn cysylltu â ni.

- Canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth o ansawdd neu reoli darpariaeth o'r fath. Mae gennym 'economi gymysg' eisoes o ran darparu gwasanaethau i bobl Wrecsam; bydd hyn yn parhau ac efallai y bydd ar ffurfiau gwahanol yn y dyfodol. Ein nod fydd sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Cyngor yn rhai o ansawdd uchel.

- Lleihau gweithgarwch trafodaethol - y mwyaf y byddwn yn ymdrin â phethau, y mwyaf fydd y gost. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau ein bod yn gweithio'n effeithiol i gael canlyniad cystal os nad gwell.

- Deall bod yn rhaid i ni gael ein rheoleiddio a chael ein perfformiad wedi'i reoli, ond bod angen lleihau'r swyddogaethau hyn yn gymesur â maint y sefydliad. Wrth i siâp y sefydliad newid ac wrth i wasanaethau gael eu lleihau, atal, neu eu newid, bydd y swyddogaethau sy'n cefnogi yn newid yn yr un modd.

10 Penderfyniadau anodd 2018/19 a 2019/20 - Ymgynghoriad ar y Gyllideb Ail-lunio Gwasanaethau

10.1 Mae'r her ariannol yn cynyddu'r angen i gynnwys dinasyddion, i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'r rhesymeg dros newid a pham mae angen gwneud penderfyniadau anodd. Trwy gyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu clir, gallwn ni helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd, yn ogystal â deall eu barn ar y ffordd ymlaen, fel y gallant ddylanwadu ar siâp gwasanaeth lleol yn y dyfodol.

10.2 Aeth yr ymgynghoriad cyllideb cyhoeddus yn fyw ar 25 Hydref 2017 ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol ar 24 Hydref 2017. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am bum wythnos a daeth i ben ar 30 Tachwedd 2017. Pwrpas ymarfer ymgynghori cyllideb ar gyfer 2018/20 oedd:

- Cynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o raddfa'r her ariannol a pham mae angen gwneud penderfyniadau anodd
- Cynyddu gwybodaeth gyhoeddus am ein 'siwrnai ail-lunio' a'r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu hystyried
- Deall barn pobl ar gynigion y gyllideb ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018/19 a 2019/20, er mwyn ystyried y safbwyntiau hyn wrth wneud penderfyniadau terfynol.

10.3 Darparwyd arolwg a llyfryn gwybodaeth manwl ar-lein ar wefan y Cyngor. Dosbarthwyd copïau papur o'r arolwg a'r deunyddiau yn hyrwyddo'r ymgynghoriad i'r Ganolfan Gyswllt ac adeiladau allweddol y Cyngor ar draws y Fwrdeistref Sirol fel y Dderbynfa Ddinesig a Llyfrgelloedd. Roedd pobl yn gallu rhoi eu barn i ni trwy gwblhau'r arolwg ar-lein, cwblhau fersiwn bapur o'r arolwg, trwy ysgrifennu atom, trwy e-bost neu lythyr.

10.4 Roedd yr ymgynghoriad yn agored i bawb ac fe'i hysbysebwyd yn helaeth trwy wefan y Cyngor, gwefan Wrecsam Ifanc, y cyfryngau cymdeithasol, newyddlen y Cyngor a'r cyfryngau lleol. Gwnaed y Gweithwyr a'r Aelodau yn ymwybodol o'r ymgynghoriad trwy fewnrwyd y Cyngor, sesiynau briffio mewnol a chylchlythyrau ac adroddiadau Bwrdd Gweithredol.

10.5 Cymerodd Aelodau ac Uwch Swyddogion ran mewn sesiynau 'stondin marchnad' yn Neuadd y Dref. Pwrpas hyn oedd rhoi cyfle i'r Aelodau Arweiniol gasglu syniadau gan y cyhoedd ynghylch cynnig arbedion a syniadau cynhyrchu incwm.

11 Canlyniad Ymgynghoriad y Gyllideb

Mae'r holl ymatebion wedi'u casglu ynghyd a'u dadansoddi, ac wedi'u cyflwyno i Aelodau'r Cyngor er mwyn iddynt eu hystyried cyn gwneud eu penderfyniadau terfynol ar gyllideb y flwyddyn nesaf. Cyflwynwyd canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r holl Aelodau mewn gweithdy ar 19 Rhagfyr 2017 ac ystyriwyd adroddiad manwl am y canfyddiadau gan y Bwrdd Gweithredol ar 9 Ionawr 2018.

12 Rhaglen Gyfalaf

12.1 Er gwaethaf yr heriau ariannol a'r cyfyngiadau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, mae wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y dyfodol. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn nodi buddsoddiad cyfalaf y Cyngor yn y Fwrdeistref Sirol a'r cyllid i gefnogi'r buddsoddiad hwnnw.

12.2 Adolygodd y Bwrdd Gweithredol rhaglen gyfalaf 2017/18-2021/22 yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2018 (HF/11/18). Amcangyfrifir mai £71,979k yw cyfanswm y gwariant cyfalaf yn 2017/18. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn cael ei hariannu'n llawn gan grantiau a chyfraniadau, derbyniadau cyfalaf a benthyca darbodus wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

12.3 Mae'r tabl isod yn darparu crynodeb o'r gwariant fesul gwasanaeth a sut gaiff y gwariant hwnnw ei gyllido.

Rhaglen Gyfalaf 2017/18 - 2021/22

Gwariant a Ragwelir	**Rhagolwg Diwygiedig 2017/18** **£**	**Rhaglen Gynlluniedig 2018/19** **£**	**Rhaglen Gynlluniedig 2019/20** **£**	**Rhaglen Gynlluniedig 2020/21** **£**	**Rhaglen Gynlluniedig 2021/22** **£**
Cynlluniau Corfforaethol	2,489,562	1,131,725	0	250,000	250,000
Economi a Thai	7,315,786	4,384,244	1,795,000	2,155,000	2,135,000
Cyfrif Refeniw Tai	49,731,211	50,269,878	41,132,418	20,506,518	18,283,062
Addysg a Gofal Cymdeithasol Plant	6,245,529	4,638,916	1,257,708	1,480,000	1,480,000
Yr Amgylchedd a Chynllunio	4,555,291	2,471,563	2,025,000	1,325,000	1,485,000
Gofal Cymdeithasol Oedolion	1,335,747	400,000	500,000	450,000	250,000
Heb ei ddyrannu	306,000	89,578	0	0	0
Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf	**71,979,127**	**63,425,904**	**46,710,126**	**26,166,518**	**23,883,062**
Cyllid					
Benthyca					
Benthyca â chymorth heb ei neilltuo	3,499,000	3,511,000	3,415,000	3,518,000	3,450,000
Benthyca Digymorth Cronfa Gyffredinol	1,532,757	0	0	0	0
Benthyca Digymorth Cyfrif Refeniw Tai	30,000,000	31,105,000	21,620,000	1,059,000	0
Cynlluniau Arbed i Fuddsoddi LIC / Cyllid Ad-daladwy	898,010	314,329	0	0	0
Menter Fenthyca'r Llywodraeth Leol	701,660	0	0	0	0
Cyfanswm Benthyciadau	**36,631,427**	**34,930,329**	**25,035,000**	**4,577,000**	**3,450,000**
Grantiau a Chyfraniadau					
Grant Cyfalaf Cyffredinol	2,130,000	2,136,000	2,085,000	2,142,000	2,150,000
Grantiau Cludiant	629,362	0	0	0	0
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif	1,689,450	1,745,541	0	0	0
Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid	540,276	0	0	0	0
Grant Dechrau'n Deg	165,080	0	0	0	0
Cronfa Treftadaeth y Loteri	418,711	0	0	0	0
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	7,565,000	7,565,000	7,565,000	7,565,000	7,565,000
Cyngor Celfyddydau Cymru	2,271,540	0	0	0	0
Grantiau Eraill Llywodraeth Cymru	1,725,855	0	0	0	0
Cyfraniad Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai	11,795,000	9,600,000	9,947,418	9,882,518	10,718,062
Cyfraniadau Eraill	1,869,179	3,074,429	0	0	0
Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau	**30,799,452**	**24,120,970**	**19,597,418**	**19,589,518**	**20,433,062**
Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy wedi'u Cymhwyso					
Cronfa Gyffredinol	4,455,237	2,374,727	77,708	0	0
Cyfrif Refeniw Tai	93,012	1,999,878	2,000,000	2,000,000	0
Cyfanswm y Derbyniadau Cyfalaf Defnyddiadwy uchod	**4,548,249**	**4,374,605**	**2,077,708**	**2,000,000**	**0**
Cyfanswm	**71,979,127**	**63,425,904**	**46,710,126**	**26,166,518**	**23,883,062**
Diffyg / Gweddill (-)	0	0	0	0	0
Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf	**71,979,127**	**63,425,904**	**46,710,126**	**26,166,518**	**23,883,062**

12.4 O fewn yr adran Economi a Thai, mae ailddatblygu llawr gwaelod a llawr cyntaf Marchnad y Bobl, gan gynnwys datblygu gofod celfyddydau, diwylliant a marchnad newydd. Cyfanswm cost amcangyfrifedig y cynllun yw £5.2m. Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2017 a bydd yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2018.

12.5 Er mwyn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru (WHQS) erbyn 2020, mae'r Cyngor yn bwriadu buddsoddi mewn rhaglen o waith cyfalaf sy'n gyfystyr â £141m dros y tair blynedd nesaf.

12.6 Mae'r rhaglen Addysg a Gofal Cymdeithasol Plant yn cynnwys gwariant dros £20m mewn perthynas â Band A o Fenter Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Mae'r gwariant a'r camau a gynigir yn ystod y blynyddoedd ariannol 2017/18 i 2019/20 fel a ganlyn:

	Rhagolwg Diwygiedig 2017/18 £	Rhaglen Gynlluniedig 2018/19 £	Rhaglen Gynlluniedig 2019/20 £
Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif:- :-			
Ysgol Hafod y Wern	444,335	0	0
Ysgol Gwenfro	252,204	37,178	0
Ysgol Penycae	1,461,815	0	0
Parth Dysgu Hyblyg (Uwchradd, Canol y Dref)	300,307	986,040	33,000
Ysgol Gwersyllt	313,711	2,409,634	44,708
Ysgol Alexandra	0	0	0
Plas Coch	40,412	0	0
Ysgol Uwchradd Bryn Alyn	1,166,267	0	0
Cyfrwng Cymraeg - Uwchradd	1,020,715	17,700	0

13 Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn y Cyngor

13.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal cronfeydd wrth gefn digonol i ddiwallu anghenion y sefydliad. Mae Strategaeth Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor yn nodi sut y bydd y Cyngor yn penderfynu ac yn adolygu lefelau'r cronfeydd wrth gefn. Mae'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn ar gael ar y wefan ganlynol ac yn yr atodiad i'r ddogfen hon.

http://www.wrexham.gov.uk/assets/pdfs/financial/medium_term_financial_plan_w.pdf

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

STRATEGAETH CRONFEYDD WRTH GEFN 2018/19

Cefndir

1. Cydnabyddir yr angen am arian wrth gefn mewn statud. Mae Adrannau 32 a 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn gofyn bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw i'r lefel angenrheidiol o arian wrth gefn er mwyn cwrdd â'r gwariant a amcangyfrifir wrth gyfrifo gofyn y gyllideb.

2. Mae mesurau diogelu eraill ar waith er mwyn helpu i rwystro awdurdodau lleol rhag ymrwymo eu hunain yn ormodol yn ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys:

   - Gofyn cyllideb gytbwys (Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 – adran 32 a 43).
   - Dyletswydd y Pennaeth Cyllid i adrodd ynglŷn â chadernid amcangyfrifon ac a yw'r cronfeydd wrth gefn yn ddigon (Deddf Llywodraeth Leol 2003 – adran 25) pan fo'r Cyngor yn ystyried gofyn y gyllideb.
   - Gofyn deddfwriaethol i'r Cyngor drefnu gweinyddiaeth briodol ar gyfer ei faterion ariannol a bod cyfrifoldeb dros weinyddu'r materion hynny gan y Pennaeth Cyllid (Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, Adran 151).
   - Gofynion Cod Darbodus Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus A Chyfrifyddiaeth– mae'r cod yn gofyn i'r Pennaeth Cyllid roi sylw llawn i fforddiadwyedd wrth wneud argymhellion ynglŷn â Rhaglen Gyfalaf y Cyngor. Mae ystyriaethau o'r fath yn cynnwys lefel yr ymrwymiadau refeniw hir dymor. Wrth ystyried fforddiadwyedd cynlluniau cyfalaf y Cyngor, mae gofyn i'r Pennaeth Cyllid ystyried yr holl adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor, sydd wedi'u hamcangyfrif ar gyfer y dyfodol, ynghyd â chyfanrwydd ei gynlluniau cyfalaf a'i ragolygon refeniw ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a'r ddwy flynedd ganlynol. Mae gofyn am ragolygon refeniw tair blynedd ledled y sector gyhoeddus, a chyflawnir hyn drwy'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
   - Bydd Swyddfa Archwilio Cymru'n ystyried a yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau digonol i sicrhau bod sail gref i sefyllfa ariannol y Cyngor ai peidio.

3. Atgyfnerthir y gofynion hyn gan adran 114 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1998, sy'n gofyn i'r Pennaeth Cyllid roi gwybod am debygoliaeth gwariant anghyfreithlon neu gyllideb anghytbwys. Byddai hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae cronfeydd wrth gefn wedi dod yn brin iawn a bod rhagolygon na fydd gan y Cyngor adnoddau i gwrdd â'i wariant mewn blwyddyn ariannol benodol.

Yr Hinsawdd Ariannol Bresennol

4. Mae'r pwysau sydd ar arian cyhoeddus ar hyn o bryd ac yn y tymor canolig yn aruthrol. O ganlyniad, mae cronni arian wrth gefn ar gyfer digwyddiadau ac amgylchiadau na ellir eu rhagweld yn anodd yn ogystal â bod yn beth sydd angen ystyriaeth ofalus.

5. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn enwi'r peryglon sydd o arbed y symiau angenrheidiol o arian wrth gefn i sicrhau cyllidebau cytbwys dros y blynyddoedd nesaf. Bydd gweithio'n benodol gyda gostyngiadau pellach mewn arian grant a cheisio cadw cynnydd yn nhreth y cyngor ar lefel resymol yn golygu y bydd angen rheoli cronfeydd wrth gefn yn effeithiol.

Mathau o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio

6. Wrth adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a pharatoi cyllideb flynyddol y Cyngor, mae angen i'r Cyngor ystyried sefydlu a chynnal cronfeydd arian wrth gefn wedi'u cefnogi ag adnoddau. Mae'r Cyngor yn cynnal arian wrth gefn i ddiogelu yn erbyn risg, sicrhau bod darpariaeth ar gyfer digwyddiadau annisgwyl ar gael ac i gefnogi buddsoddiad mewn prosiectau yn y dyfodol sydd o fudd i'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r cyngor yn rheoli risg trwy asesu effeithiau posibl digwyddiadau'r dyfodol, wedi'u seilio ar ba mor debygol ydynt o ddigwydd a difrifoldeb unrhyw effaith. Yna, cymerir camau lliniaru er mwyn lleihau'r effaith a rhoddir cynlluniau priodol ar waith.

7. Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan y Cyngor y cronfeydd canlynol o arian wrth gefn i'w defnyddio:

	31/03/13 £'000	**31/03/14 £'000**	**31/03/15 £'000**	**31/03/16 £'000**	**31/03/17 £'000**
Balans y Gronfa Gyffredinol	7,018	7,018	7,018	7,018	7,018
Balansau Cyfrif Refeniw Tai	6,469	7,932	7,860	6,435	6,001
Cronfeydd wrth Gefn a'r Gronfa Gyffredinol wedi'u clustnodi	18,123	18,064	20,546	21,801	17,857
Cronfeydd wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai wedi'u clustnodi	7,861	5,026	1,421	0	0
Derbyniadau Cyfalaf	17,816	15,036	15,083	14,468	11,935
Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso	901	1,225	1,459	802	744
Cyfanswm	**58,188**	**54,301**	**53,387**	**50,524**	**43,555**

Balans y Gronfa Gyffredinol

8. Diben y gronfa wrth gefn yma yw darparu ar gyfer unrhyw wariant annisgwyl nad oes modd ei reoli yn defnyddio'r cyllidebau presennol. Byddai gwariant o'r fath yn wariant untro o ganlyniad i ddigwyddiad anghyffredin. Dylid gosod cronfa wrth gefn gyffredinol ar lefel synhwyrol ond nid yn ormodol felly gan y gall dal lefelau uchel o arian wrth gefn effeithio ar adnoddau a pherfformiad. Yn y gorffennol, mae wedi'i gynnal ar lefel o amgylch 5% o gyllideb net y Cyngor (heb gynnwys ysgolion). Mae Atodiad 1 yn manylu ar yr elfennau sy'n ffurfio balans y Gronfa Gyffredinol a lefelau'r risgiau sydd ynghlwm â phob un o'r elfennau hyn. Mae'r rhain yn ddangosol ac efallai nad fyddent yn gynhwysfawr wrth i risgiau newydd ddod i'r amlwg.

	2013/14 £'000	2014/15 £'000	2015/16 £'000	2016/17 £'000	2017/18 £'000	2018/19 £'000
Cyllideb net (heb gynnwys ysgolion)	154,239	150,604	146,144	145,802	145,675	152,231
Balans y Gronfa Gyffredinol fel % o'r gyllideb net	4.56%	4.66%	4.80%	4.81%	4.82%	4.61%

Balansau Cyfrif Refeniw Tai

9. Mae'r rhain yn cynrychioli cronfeydd sydd wedi'u clustnodi i'w defnyddio ar stoc dai y Cyngor ei hun. Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai wedi'i ddatblygu ar sail bod lleiafrif balans o £5m o gyfanswm gwariant y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei gadw i liniaru yn erbyn risg.

Cronfeydd wrth Gefn a y Gronfa Gyffredinol wedi'u clustnodi

10. Yn wahanol i falans y gronfa gyffredinol, mae cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi cael eu neilltuo ar gyfer ardaloedd gwariant penodol lle ceir costau sydd wedi'u rhagweld na ellir ond eu hamcangyfrif. Mae'n rhaid i wariant sy'n gysylltiedig â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd fod yn benodol gysylltiedig i ddiben y gronfa wrth gefn. Gweler Atodiad 2 sy'n ddarn o Ddatganiad Cyfrifon 2016/17 y Cyngor ac sy'n rhestru cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd y Cyngor.

Derbyniadau Cyfalaf

11. Mae'r gronfa wrth gefn hon yn dal elw o werthu tir neu asedau eraill, sydd wedi'u rhwystro drwy statud rhag cael eu defnyddio ar wahân i'w defnyddio i ariannu gwariant cyfalaf newydd neu i gael eu neilltuo i ad-dalu dyled. Mae'r adroddiad diweddaraf ar y Rhaglen Gyfalaf yn amlygu y bydd angen oddeutu £9.6 miliwn o gyllid derbyniadau cyfalaf o 2017/18 ymlaen.

Grantiau Cyfalaf heb eu Cymhwyso

12. Mae hwn yn dal y grantiau a'r cyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf y mae'r Cyngor wedi cwrdd â'u hamodau ond y mae eto angen cwrdd â'r gwariant cyfalaf.

Gweithdrefn Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn

13. Mae'n rhaid derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol a/neu'r Pennaeth Cyllid cyn sefydlu unrhyw gronfa wrth gefn a dylai bod rheswm penodol a phriodol dros greu cronfa o'r fath.

14. Mae system gyllidebu arian cyfyngedig y Cyngor yn cynnwys darpariaeth ar gyfer "trefniadau dwyn ymlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Yn amodol ar gymeradwyaeth aelodau'r Bwrdd Gweithredol, gall gwasanaeth neu adran sy'n tanwario eu cyllideb arian cyfyngedig, fel arfer, ddwyn y tanwariant ymlaen, hyd at uchafswm o 5% o gyllideb arian cyfyngedig yr adran, i'r flwyddyn ganlynol.

15. Unwaith yn unig y gellir defnyddio cronfeydd wrth gefn ac felly ni ddylid eu cynnal i ariannu gwariant sy'n parhau.

16. Fel rhan o'r broses gyllidebol flynyddol, bydd y Pennaeth Cyllid yn ystyried ac yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor p'un ai a oes angen cynnwys cyfraniad tuag at falans y gronfa gyffredinol neu unrhyw gronfa wrth gefn a glustnodwyd.

Monitro

17. Rhoddir gwybod i aelodau am ddefnydd cronfeydd wrth gefn pob deufis fel rhan o weithdrefnau Monitro Cyllid y Cyngor.

18. Yn ystod yr Hydref ac fel rhan o Weithdy Cyllideb i'r holl Aelodau, adolygir cronfeydd wrth gefn y Cyngor yn flynyddol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y Cyngor ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Fel rhan o'r adolygiad, mae aelodau'n ystyried y canlynol ar gyfer pob cronfa wrth gefn a glustnodwyd:

- y rheswm dros gael / diben y gronfa wrth gefn
- sut a pha bryd y gellir defnyddio'r gronfa wrth gefn
- ei pherthnasedd ac a yw'n ddigonol

19. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cymeradwyo unrhyw drosglwyddiadau i neu o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

Dadansoddi Risg

20. Bydd unrhyw argymhelliad sy'n newid defnydd bwriadol y cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Cyllideb Refeniw blynyddol yn ystyried anghenion y gwasanaeth yn erbyn yr angen i gadw lefelau cronfeydd wrth gefn gofalus. Mae peryglon sylweddol sy'n effeithio ar lefel y cronfeydd wrth gefn i'w cynnal, a'r mathau o beryglon sydd wedi cael eu hystyried, ond sydd hefyd i gael eu cadw dan arolwg, yw:

- Bwlch cyllid yn y dyfodol – perygl, oherwydd amgylchiadau economaidd, ei bod yn debygol y bydd gostyngiadau gwirioneddol pellach mewn lefelau grant cynnal refeniw a gostyngiadau mewn grantiau penodol.
- Gostyngiadau mewn derbyniadau cyfalaf ac incwm yn ymwneud â chynllunio
- Cynnydd mewn galw ar wasanaethau a all arwain at orwario adrannol.
- Incwm is na'r disgwyl.
- Colledion heb eu hyswirio gan ddigwyddiadau y mae'n anodd eu darogan – er enghraifft: stormydd, llifogydd, terfysgaeth. Nid yw cymorth o dan y cynllun Cymorth Ariannol Brys ond yn daladwy pan fo gwariant yn fwy na throthwy o 0.2% o ofyn y gyllideb ac ni fydd ond yn ariannu 85% o wariant brys dros y trothwy.
- Atebolrwydd cyfreithiol heb ei yswirio – er enghraifft, hawliadau anafiadau personol.
- Meth darparu arbedion wedi'u cynllunio
- Ailstrwythuro Sefydliadol – er enghraifft, costau diswyddo a phensiynau.
- Costau cytundebau tymor hir – er enghraifft, rheoli gwastraff
- Atgyweirio neu amnewid asedau – er enghraifft, adeiladau.

Casgliad

21. Nid yw lefelau cronfeydd wrth gefn cyfredol y Cyngor yn ormodol, yn enwedig o'u cymharu â lefel gyfartalog y cronfeydd wrth gefn y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn eu cynnal. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data awdurdodau lleol ar lefelau cronfeydd wrth gefn a gellir eu gweld ar y ddolen gyswllt ganlynol:

    http://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/whole-government-accounts/publications/whole-government-accounts-reserves/?skip=1&lang=cy

22. Mae cronfeydd wrth gefn y Cyngor a glustnodwyd wedi cynyddu yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf wrth i'r Cyngor fynd trwy broses o newid lle mae tanwario'r gyllideb wedi bod yn y cyfnod hwnnw. Mae rheoli'r gyllideb yn llymach yn golygu nad yw tanwario ar y lefel yma'n debygol ac mae'r perygl o orwario yn erbyn y gyllideb yn dod yn fwy o risg i'r Cyngor.

23. Gall fod newidiadau yn ystod y flwyddyn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fydd yn effeithio ar y strategaeth hon. Bydd newidiadau o'r fath yn cael eu monitro gan y Pennaeth Cyllid a'u hadrodd wrth y Bwrdd Gweithredol.

ATODIAD 1

Risg Allweddol	Effaith	Tebygolrwydd	Rheoli'r Risg	Lleiafswm £000	Mwyafswm £000	Angenrheidiol £000
Digwyddiad mawr a/neu hawliadau – gwariant heb ei gyllidebu	Disgwyl i'r Cyngor ariannu gwariant hyd at 0.2% o ofyn y gyllideb a 15% o wariant cymwys dros y trothwy o 0.2%.	Un digwyddiad hyd at 0.2% o'r gyllideb net – Isel i Sylweddol Un digwyddiad yn creu cyfanswm dros 0.2% o'r gyllideb net – Isel Iawn		**465**	**4,000**	**465**
Methiant Cyd-barti	Gall partïon fethu talu symiau yn ôl i'r Cyngor a thrwy hynny effeithio ar gyllideb refeniw	Sylweddol	Yn unol â'r Strategaeth TM, ni delir blaendaliadau ond i sefydliadau gyda statws credyd A- ar y lleiaf a dim mwy na £5m i bob sefydliad a dim yn hwy na 12 mis.	**1,000**	**5,000**	**3,500**
Methu â chyflawni arbedion a gynlluniwyd, mwy o alw am wasanaethau a gostyngiad posib' mewn grantiau penodol	Gorwario yn ystod y flwyddyn	Uchel	Yn rhan o'r broses o lunio cyllideb bob blwyddyn, cynnal asesiad risg o gyflawni'r arbedion a gynlluniwyd. Fodd bynnag, nodwyd y canlynol fel materion risg uchel: a) Newid i arferion gwaith a darparu gwasanaeth b) Cynyddu a chyflwyno taliadau yn unol â'r polisi adennill costau c) Effaith mwy o alw am wasanaethau d) Gostyngiad mewn grantiau penodol		**638** **401** **1,000** **954**	**638** **401** **1,000** **954**
			CYFANSWM	**1,465**	**11,993**	**6,958**

ATODIAD 2

		2015/16			2016/17		
	Balans ar 1.4.2015	**Trosglwyddiadau Allan**	**Trosglwyddiadau i Mewn**	**Balans ar 31.3.2016**	**Trosglwyddiadau Allan**	**Trosglwyddiadau i Mewn**	**Balans ar 31.3.2017**
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Cronfa Gyffredinol:							
Balansau sydd gan Ysgolion	2,560	(687)	707	2,580	(1,297)	359	1,642
Cronfeydd wrth Gefn	1,327	(819)	202	710	(184)	609	1,135
Cronfa wrth Gefn Yswiriant	1,529	0	873	2,402	0	17	2,419
Cronfa wrth Gefn Rhwymedigaethau Cyfreithiol	511	(26)	0	485	(34)	800	1,251
Cronfa wrth Gefn i Gynnal a Chadw yn y Gaeaf	300	0	0	300	0	0	300
Cronfa wrth Gefn Ymddeoliadau Cynnar Gwirfoddol	94	0	0	94	0	0	94
Cronfa wrth Gefn Ymddeoliadau Cynnar Gwirfoddol Trosiannol	1,500	(505)	500	1,495	(146)	0	1,349
Cronfa wrth Gefn Ail-lunio Gwasanaethau	2,533	(721)	250	2,062	(1,247)	0	815
Cronfa wrth Gefn Buddsoddi i Arbed	361	(300)	0	61	0	75	136
Cronfa wrth Gefn Cyfalaf	2,318	(1,200)	2,885	4,003	(2,251)	885	2,637
Cronfa wrth Gefn Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw	150	0	100	250	(100)	0	150
Cronfa wrth Gefn ITEC	581	(71)	0	510	(150)	0	360
Datblygiad TG	42	0	0	42	0	0	42
Mynediad i Gwsmeriaid	32	(17)	0	15	0	0	15
Cronfa wrth Gefn y Cynllun Datblygu Lleol	272	(69)	0	203	0	0	203
Cronfa wrth Gefn y Strategaeth ar Wastraff	95	0	0	95	(95)	0	0
Cronfa wrth Gefn Allyriadau Carbon	77	0	468	545	(468)	225	302
Traphont Ddŵr Pontcysyllte	8	(8)	0	0	0	0	0
Cronfa wrth Gefn Amnewid Peiriannau Amlosgfa	23	0	0	23	0	0	23
Cronfa wrth Gefn Adran 106/278	514	0	0	514	(186)	0	328
Trawsnewid Rhanbarthol Gogledd Cymru	9	(9)	0	0	0	109	109
Amrywiol	45	(8)	16	53	(13)	5	45
Cronfeydd wrth Gefn ar gyfer Grantiau	5,665	(1,145)	839	5,359	(1,467)	610	4,502
Cyfanswm	**20,546**	**(5,585)**	**6,840**	**21,801**	**(7,638)**	**3,694**	**17,857**
Y Cyfrif Refeniw Tai:							
Atgyweiriadau Tai	1,421	(1,421)	0	0	0	0	0
Cyfanswm	**1,421**	**(1,421)**	**0**	**0**	**0**	**0**	**0**

Cronfeydd wrth Gefn Gwasanaethau *- tanwariant gwasanaethau yn rhan o drefniadau'r Cyngor i gario arian yn ei flaen i'w ddefnyddio mewn blynyddoedd dilynol.*

Cronfa wrth Gefn Yswiriant *- mae'r gronfa'n cael ei chadw i ariannu unrhyw rwymedigaethau yn y dyfodol fel MMI (nodyn 43) a hawliadau sy'n fwy na'r gyllideb.*

Cronfa wrth Gefn Rhwymedigaethau Cyfreithiol *- swm wedi'i glustnodi i ddarparu ar gyfer unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol yn y dyfodol.*

Cronfa wrth Gefn i Gynnal a Chadw yn y Gaeaf *- swm a neilltuwyd i dalu costau o ganlyniad i amodau tywydd garw.*

Cronfa wrth Gefn Ymddeoliadau Cynnar Gwirfoddol ac Ymddeoliadau Cynnar Gwirfoddol Trosiannol *- i ariannu costau ymddeoliadau cynnar a diswyddo yn dilyn ail-lunio gwasanaethau.*

Cronfa wrth Gefn Ail-lunio Gwasanaethau *- swm a neilltuwyd i gynorthwyo'r broses drawsnewid i wireddu arbedion i'r Cyngor i'r dyfodol.*

Cronfa Buddsoddi i Arbed *- darpariaeth ar gyfer buddsoddi mewn gwahanol gynlluniau i wireddu arbedion ariannol parhaol.*

Cronfa Gyfalaf *- adnoddau sydd eisoes wedi'u hymrwymo i ariannu rhan o raglen gyfalaf bum mlynedd y Cyngor nad ywn ymwneud â'r Cyfrif Refeniw Tai;*

Cronfa wrth Gefn Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw *- i ymateb i batrymau gwariant anwastad yn y dyfodol.*

Cronfa wrth Gefn ITeC *- mae ITeC yn darparu hyfforddiant technoleg gwybodaeth er lles yr economi leol ac mae'r gronfa wedi'i sefydlu i ymateb i batrymau gwariant anwastad yn y dyfodol.*

Datblygiad TG a Mynediad Cwsmeriaid *- i ariannu gwelliannau TG a datblygiadau Hunanwasanaeth TGCh amrywiol.*

Cronfa wrth Gefn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) *- i ariannu'r costau sy'n gysylltiedig â mabwysiadu'r CDLI erbyn 2016/17.*

Cronfa wrth Gefn y Strategaeth Wastraff *- swm a neilltuwyd i liniaru effaith y gostyngiad arfaethedig yn y grant Rheoli Gwastraff.*

Cronfa wrth Gefn Allyriadau Carbon *- i ariannu rhan o raglen waith y cynllun lleihau carbon i leihau allyriadau carbon.*

Traphont Ddŵr Pontcysyllte *- i gefnogi'r gwaith hanfodol yn safle Treftadaeth y Byd, fel gwaith trwsio ac adfer a godwyd gan UNESCO.*

Cronfa Amnewid Peiriannau Amlosgfa *- ariannu cost lliniaru mercwri yn rhannol.*

Cronfa Adran 106/278 *- cynrychioli incwm gan gontractwyr nad oes ganddynt unrhyw amod, ond sydd wedi eu neilltuo i ariannu prosiectau isadeiledd amrywiol.*

Trawsnewid Rhanbarthol Gogledd Cymru *- yn cynrychioli tanwariant ar gyfraniad a wnaed i ariannu prosiectau Rhanbarthol Gogledd Cymru, wedi'i gario ymlaen i'w ddefnyddio mewn blynyddoedd dilynol.*

Amrywiol *- i ddiwallu amryw o ymrwymiadau eraill, gan gynnwys cyfraniadau amlosgfa a band pres ysgol.*

Cronfeydd wrth Gefn Grantiau *- incwm o grantiau a dderbynnir gan y Llywodraeth nad oes ganddynt unrhyw amod, ond sydd wedi eu neilltuo i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau penodol.*

Atgyweiriadau Tai *- cofnod ar wahân o incwm a gwariant sy'n ymwneud â thrwsio a chynnal stoc tai'r Cyngor.*